CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 11 RHAGFYR 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd H.L. Davies(Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	K.V. Broom	J.M. Charles	P. Cooper
M.D. Cranham	D.M. Cundy	B. Davies	G. Davies
L. Davies	T. Davies	M. Donoghue	
A. Evans	H.A.L. Evans	L.D. Evans	T.M. Higgins
J.K. Howell	P.M. Hughes	M. James	G.H. John
A.C. Jones	D. Jones	H. Jones	A. Lenny
K. Madge	D. Nicholas	M. Palfreman	D. Price
S.L. Rees	E. Skinner	E.G. Thomas	G.B. Thomas
M. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan Owen	P.T. Warlow
J. Williams			

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

L.R. Bowen	S.A. Curry	A. Davies	W.R.A. Davies
T.A.J. Davies	C. Davies	K. Davies	Ll.M. Davies
D.C. Evans	N. Evans	W.T. Evans	A.D. Harries
P. Hughes-Griffiths	J.D. James	R. James	B.W. Jones
M.J.A. Lewis	N. Lewis	A. Leyshon	A.G. Morgan
D. Owen	B.A.L. Roberts	E.M.J.G. Schiavone	J. Seward
H.B. Shepardson	R. Sparks	F. Walters	D.E. Williams
S. Williams			

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):

W. Walters, Prif Weithredwr
S. Murphy, Pennaeth y Gyfraith Llywodtaethau a Gwasanaethau Sifil
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
O. Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg, Plant a Gwasanaethau Teuluoedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau
G. Ayres, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
A. Edwards, Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil (rhif 6)
S. Williams, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol (rhif 6)
B. Kathrens, Rheolwr Amddiffyn rhag Llifogydd ac Addasu'r Arfordir)
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

M. Runeckles, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00yb - 11.58 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G.R. Jones, E. Rees, D. Thomas, S. Davies a B.D.J. Phillips.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
S. Allen	6. - Adolygiad o gymunedau a threfniadau etholiadol – Abaty Hendy-gwyn ar Daf, Hendy-gwyn ar Daf	Personol – Yn aelod o Bwyllgor Canolfan Hywel Dda, sy'n gysylltiedig â'r Abaty, yn sgil cael ei benodi gan y Cyngor.
K. Madge	9.1 Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2023/24	Personol a Rhagfarnol - merch yn gweithio fel rheolwr ym maes Gofal Cymdeithasol
M. Palfreman	9.1 Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2023/24	Personal a Rhagfarnol – mae'n rhedeg ymgynghoriaeth iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n gallu siarad ond nid pleidleisio
C. Jones	9.2 - Ymchwiliad Adran 19 Cyngor Sir Caerfyrddin i lifogydd yn 34 o eiddo yn Llansteffan dros gyfnod y Flwyddyn Newydd 2023/24	Personol a Rhagfarnol – Y Cynghorydd yn byw yn yr ardal yr effeithir arni
A. Lenny	9.2 - Ymchwiliad Adran 19 Cyngor Sir Caerfyrddin i lifogydd yn 34 o eiddo yn Llansteffan dros gyfnod y Flwyddyn Newydd 2023/24	Personol a Rhagfarnol – mae gan y Cynghorydd berthnasau agos sy'n byw yn yr ardal yr effeithir arni
E. Skinner	9.2 - Ymchwiliad Adran 19 Cyngor Sir Caerfyrddin i lifogydd yn 34 o eiddo yn Llansteffan dros gyfnod y Flwyddyn Newydd 2023/24	Personol a Rhagfarnol - mae gan y Cynghorydd berthynas sy'n byw yn yr ardal yr effeithir arni

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD (OS OES RHAI)

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr amrywiaeth o ddigwyddiadau yr oedd ef, a'i gydymaith, wedi bod iddynt ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, er enghraifft mynd i Fyddfai, Carnifal Nadolig Llanelli, agoriad ffurfiol y cae 3G yng Nghlwb Rygbi Llanymddyfri, gwasanaeth Nadolig yng ngolau cannwyll Eglwys Sant Barnabas, Rhandir-mwyn, Plygain gyda Merched y Wawr Caerfyrddin.

- Roedd y Cadeirydd yng nghwmni'r Cynghorydd Jane Tremlett am ddau ddiwrnod yr wythnos diwethaf, lle buont yn ymweld â holl gartrefi gofal yr awdurdod, sef 7 cartref gofal a 2 ganolfan ddydd yng Nghastellnewydd Emlyn, Ffair-fach, Cwmaman, Sanclêr, Caerfyrddin a Llanelli.

- Estynnodd y Cadeirydd ar ran y Cyngor ei longyfarchiadau i Georgina Gilberts ar ei hymgais lwyddiannus i gwblhau'r gamp anhygoel o redeg saith marathon mewn saith diwrnod yn gwisgo'r holl offer diffodd tân.

- Bu'r Cadeirydd yn myfyrio ar yr orymdaith Diwrnod y Rhuban Gwyn, y cafwyd cefnogaeth dda iddi, yng Nghaerfyrddin.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at lwyddiant Coleg Llanymddyfri ar ei berfformiad godidog yn Rownd Derfynol Ysgolion a Cholegau Cymru yn Stadiwm Principality, Caerdydd. Llwyddodd y Coleg i drechu Coleg y Cymoedd a chadw'r teitl a enillwyd ganddynt y llynedd, fel Pencampwyr Cymru.

- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cymryd rhan yn Nhrochfa'r Tymor ar Draeth Cefn Sidan ar Ŵyl San Steffan i godi arian ar gyfer dwy elusen, sef LATCH a Prostate Cymru.

- Dywedodd y Cadeirydd fod yr Apêl Teganau Nadolig yn dal i fod ar agor ar gyfer rhoddion.

- Estynnodd y Cyngor longyfarchiadau i'r preswylydd lleol, Georgie Grasso, ar ennill *The Great British Bake Off*. Georgie yw'r enillydd cyntaf o Gymru. Mae ei dewrder a'i gallu i fod yn agored wrth siarad am iechyd meddwl ac ADHD yn rhywbeth i'w annog ac rydym yn dymuno'r gorau iddi yn y dyfodol.

4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)

Dywedodd yr Arweinydd pa mor ddiolchgar oedd y Cyngor i'r holl staff a weithiodd yn ddiflino drwy gydol y penwythnos yn ystod Storm Darragh i gadw'r

trigolion yn ddiogel. Mae'r trigolion oedd heb drydan wedi gallu defnyddio cyfleusterau canolfan hamdden y Sir, i gadw'n gynnes, i wefru eu ffonau, i gael cawodydd ac i gael cyfle i gael diod boeth. Bydd y canolfannau ar agor tan ddeg o'r gloch y nos heno ac yfory os bydd angen.

Dywedodd yr Arweinydd pa mor ddiolchgar oedd y Cyngor i'r holl staff gofal cartref, a aeth yr ail filltir i sicrhau bod anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu diwallu. Roedd staff gofal cartref wedi gallu ymweld â phawb oedd angen gofal arnynt, a hynny dros gyfnod estynedig o amser.

Diolchodd yr Arweinydd i bawb am y ffaith bod cymunedau wedi dod at ei gilydd i gefnogi ei gilydd pan oedd angen.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod y cyngor hwn, oherwydd llymder ariannol, tua £150m ar ei golled mewn termau real yn fwy nag yn 2010. Ar yr un pryd bu galw enfawr a chynyddol am wasanaethau statudol acíwt - yn enwedig gofal oedolion a phlant - yma ac ar draws Cymru. Amcangyfrifodd grŵp trawsbleidiol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fwlch ar y cyd gan bob Cyngor yng Nghymru o bron i £560m.

Dywedodd yr aelod Cabinet dros Adnoddau mai £25m oedd y bwlch yn Sir Gaerfyrddin - ac roedd hynny hyd yn oed yn caniatáu ar gyfer y £10.5m o arbedion a nodwyd gan adrannau'r cyngor. Roedd y diffyg yn cynnwys penawdau fel dyfarniad cyflog athrawon, a gofynion pwysau gan ysgolion a'r maes gofal cymdeithasol. Roedd hefyd yn cynnwys diffyg Yswiriant Gwladol posibl o £4m ar gyfer gwasanaethau gofal a gomisiynir a gwariant 3ydd parti - fel CWM a Llesiant Delta - yn dilyn newidiadau o ran Yswiriant Gwladol a wnaed yng Nghyllideb y Canghellor. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys y £7-8m ychwanegol ar gyfer staff y cyngor a gyflogir yn uniongyrchol, ac roedd Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn cyhoeddi 'lwfans' maes o law.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod yna orwariant arfaethedig o £11m gan ysgolion - sy'n sefyllfa ddifrifol iawn yn wir. Ar hyn o bryd roedd tîm ymyrraeth yn ymweld â'r 50+ o ysgolion mewn diffyg i drafod ffyrdd i'w helpu i leihau gorwariant. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach yn y Flwyddyn Newydd.

Atgoffodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau yr aelodau, mewn perthynas â'r gyllideb net, fod 75% o incwm y Cyngor sydd i'w wario ar ofal cymdeithasol, addysg ac ati yn dod o'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) a dyraniad Ardrethi Annomestig gan Lywodraeth Cymru. Mae pob 1% ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn rhoi £3.5m i'r Cyngor. Daw'r rhan fwyaf o'r gweddill o'r Dreth Gyngor, gyda phob 1% ychwanegol yn cyfateb i £1m. Mewn geiriau eraill, mae pob 1% yn llai o ran y Grant Cynnal Refeniw yn golygu 3.5% ar y Dreth Gyngor.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb dros dro ddoe. Er y bydd y Gwasanaeth Iechyd yn cael cynnydd o 10%, dim ond 4.3% oedd y cynnydd dros dro i Lywodraeth Leol. Dylai'r setliad interim ar gyfer Sir Gaerfyrddin gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach

heddiw. Bydd angen lobïo Llywodraeth Cymru rhwng nawr a mis Chwefror er mwyn sicrhau bod cynghorau lleol yn cael cyfran deg.

5. LLOFNODI YN GOFNODION CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 13EG TACHWEDD, 2024

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024 yn gofnod cywir.

6. ADOLYGIAD O GYMUNEDAU A THREFNIADAU ETHOLIADOL - ABATY HENDY-GWYN AR DAF, HENDY-GWYN AR DAF

[Noder: Gan fod y Cynghorydd S. Allen wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Pwyllgor ystyried yr eitem ond nid oedd wedi pleidleisio.]

Derbyniodd y Cyngor adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu, am adolygiad o'r ffiniau cymunedol rhwng Cynghorau Cymuned Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, mae dyletswydd ar bob prif gyngor i fonitro'r cymunedau yn ei ardal a, lle bo'n briodol, drefniadau etholiadol cymunedau o'r fath at ddibenion ystyried a ddylid gwneud y newidiadau a argymhellir. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno drwy adolygiad cymunedol.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor y byddai ymchwiliad cychwynnol ac yna ymgynghoriad chwe wythnos gydag ymgyngoreion gorfodol i ddilyn. Yna byddai cynigion drafft, gan gynnwys adroddiad am y cyfnod ymgynghori, yn cael eu paratoi a fyddai'n cynnwys manylion am yr adolygiad ac yn nodi'r cynigion. Byddai argymhellion terfynol gydag adolygiad o'r cynigion, yng ngoleuni unrhyw gynrychiolaeth sy'n cael ei gwneud yn ystod ymgynghoriad am newid/dim newid, yn dilyn yr ymgynghoriad. Yna bydd adroddiad a chanfyddiadau terfynol yn cael eu cyflwyno i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i'w hystyried a llunio'r Gorchymyn.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu i Mrs Amanda Edwards, Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil, am ei hymroddiad i'r gwasanaeth gan ddymuno'n dda iddi yn ei hymddeoliad.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trefniadau etholiadol ar gyfer Abaty Hendy-gwyn ar Daf a Hendy-gwyn ar Daf.

7. PENODI AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn argymell penodi Jeanette Gilasbey yn aelod Pwyllgor Cymunedol newydd o'r Pwyllgor Safonau ar ôl i un o'r aelodau pwyllgor cymunedol presennol adael y Pwyllgor yn gynharach yn 2024. Nodwyd, yn dilyn proses recriwtio ffurfiol, a gynhaliwyd yn unol â'r gweithdrefnau a ragnodir gan reoliadau, y sefydlwyd panel recriwtio yn cynnwys tri Chynghorydd Sir ac un Aelod Lleyg Annibynnol a cheisiwyd mynegiannau o ddiddordeb gan bob cyngor tref a chymuned yn y Sir. Roedd yn argymell i'r Cyngor benodi Jeanette Gilasbey, cyn-aelod pwyllgor cymunedol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod cychwynnol llawn yn y swydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Jeanette Gilasbey yn cael ei phenodi yn aelod pwyllgor cymunedol i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod cychwynnol llawn yn y swydd.

8. RECRIWTIO I'R SWYDD PENNAETH Y GWASANAETHAU OEDOLION

Bu'r Cyngor yn ystyried adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Drefniadaeth a'r Gweithlu, am Recriwtio i swydd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion, a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl am y swydd a'r trefniadau Dyletswyddau Uwch dros dro os oedd angen.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor y byddai Pennaeth presennol y Gwasanaethau Oedolion yn gadael y Cyngor ar 31 Mawrth 2025. Er bod y Proffil Swydd a'r Fanyleb Person eisoes wedi cael y gymeradwyaeth ofynnol gan y Cyngor Sir yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cymru), gwnaed newidiadau i'r Proffil Swydd a'r Fanyleb Person i gryfhau'r cyfrifoldebau o ran Diogelu, ac roedd y proffil ei hun wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu gofynion y swydd yn gywir.

Nodwyd bod y datganiad canlynol bellach wedi'i gynnwys ym mhob templed Proffil Swydd safonol: “Mae diogelu yn fater i bawb. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb am amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl, gweithio mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi eu budd pennaf, a rhoi gwybod am unrhyw bryderon.”

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

8.1 cymeradwyo'r Proffil Swydd a'r Fanyleb Person a atodwyd i'r adroddiad.

8.2 bod y trefniadau interim arfaethedig yn cael eu gweithredu, pe bai eu hangen.

9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET MEWN PERTHYNAS Â'R EITEMAU CANLYNOL

9.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDOD LLEOL 2023/24

[Noder: Roedd y Cynghorwyr K. Madge a M. Palfreman wedi datgan eu buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a gwnaethant ailadroddodd eu datganiad ynghylch yr eitem hon ac aros yn y cyfarfod wrth iddi gael ei hystyried.]

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd 2024 (gweler cofnod 8), wedi ystyried Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ar gyfer 2023-24.

Cafodd yr adroddiad ei lunio yn unol â'r gofyniad statudol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor ar berfformiad yr ystod gyfan o wasanaethau cymdeithasol a'r modd y cânt eu darparu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer eu gwella. Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn archwilio pob maes gwasanaeth o fewn Gofal Cymdeithasol gan ddangos sut y byddai'n mynd i'r afael â strategaethau, gweithredoedd, targedau a risgiau'r gwasanaeth a sut y byddai'r gwasanaethau'n cael eu darparu'n weithredol ar sail y gyllideb a gymeradwywyd.

Diolchodd aelodau'r Cyngor i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol am ei ymroddiad i'r gwasanaeth a'i waith caled wrth ddarparu adroddiad cynhwysfawr a thalwyd teyrnged i'r staff sy'n gweithio o fewn y portffolio.

Ymatebodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol yn unol â hynny i'r ymholiadau a godwyd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:

9.1.2 bod Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2023/24 yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei gymeradwyo.

9.2. YMCHWILIAD ADRAN 19 CYNGOR SIR CAERFYRDDIN I LIFOGYDD YN 34 EIDDO YN LLANSTEFFAN DROS GYFNOD Y FLWYDDYN NEWYDD 2023/24

[Noder: Roedd y Cynghorwyr C. Jones, A. Lenny ac E. Skinner, wedi datgan eu buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, a gwnaethant ailadroddodd eu datganiad ynghylch yr eitem hon a gadael y cyfarfod.]

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2024, (cofnod 8) wedi ystyried adroddiad a luniwyd yn unol ag Adran 19 Deddf Llifogydd a Dŵr 2010, ar ganlyniad ymchwiliad a gynhaliwyd ynghylch llifogydd tua 34 o eiddo yn Llansteffan ar ôl dwy storm dros gyfnod y flwyddyn

newydd 2023/24. Nodwyd bod yr ymchwiliad wedi dod i ben gyda 10 cam gweithredu yn ymwneud â Rheoli Perygl Llifogydd, 6 argymhelliad yn ymwneud â Chydnerthu Cymunedol, ac 11 o gamau yn ymwneud â Gweithredu a Chynnal a Chadw ac y byddai'r Cyngor yn rheoli'r gwaith o gyflawni'r camau hynny drwy'r grŵp prosiect amlasiantaeth y byddai'n parhau i'w gadeirio yn y tymor byr.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd yn unol â hynny i'r ymholiadau a godwyd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet

9.2.1 bod adroddiad Adran 19 Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei gymeradwyo

9.3. STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2024, (cofnod 6) wedi cael Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol y Cyngor a luniwyd yn unol â gofynion Adran 10.7 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Awdurdodau Lleol gyhoeddi eu strategaeth a'u cynllun rheoli perygl llifogydd lleol. Roedd y Strategaeth, a gefnogwyd gan gynllun mwy tactegol, yn egluro sefyllfa'r Awdurdod o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, ei nodau erbyn 2030 a sut y byddai hynny'n cael ei gyflawni.

Nododd y Cyngor mai'r cynllun oedd yr ail strategaeth a ddatblygwyd o dan y Ddeddf (yr un gyntaf ym mis Mai 2013) a phrif ddibenion y cynllun oedd:

1. Nodi'r asesiad strategol o berygl llifogydd yn Sir Gaerfyrddin lle'r oedd 12,600 o gyfeiriadau mewn perygl o lifogydd
2. Ffurfioli a chytuno ynghylch y nod strategol i leihau nifer yr anheddau a'r busnesau sydd mewn perygl o lifogydd
3. Ffurfioli'r pum amcan strategol a sut maent yn cyd-fynd â'r amcanion cenedlaethol:
    - *Moderneiddio a datblygu dull thematig sy'n seiliedig ar risg o reoli perygl llifogydd a'r arfordir.*
      Ennill data a gwybodaeth i hwyluso gwneud penderfyniadau gwell.
    - *Hyrwyddo dulliau o reoli llifogydd yn naturiol, draenio cynaliadwy ac atebion seiliedig ar natur;*
    - *Addysgu, cynghori a grymuso ein cymunedau i ddod yn fwy cydnerth.*
    - *Cynorthwyo cymunedau i addasu a hyrwyddo hyn a gweithio mewn partneriaeth.*
4. Cytuno ynghylch y 10 mesur a nodir yn yr adroddiad a fydd yn eu tro yn cyflawni'r 5 amcan strategol uchod

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:

9.3.1 bod Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei chymeradwyo i'w chyhoeddi.

9.4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2023/24

Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2024 (cofnod 9), wedi ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/2024 yn ymwneud â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-27, a gyhoeddwyd yn unol â darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 lle roedd angen cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei Amcanion Llesiant. Yn ogystal, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd dyletswydd ar y Cyngor i adrodd ar ei berfformiad ar ffurf dull hunanasesu. Nod yr adroddiad oedd bodloni'r gofynion hynny mewn un ddogfen.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ar y sail ganlynol ar gyfer pob Amcan Llesiant, yn ogystal â'r blaenoriaethau Thematig a Gwasanaeth:

- **Trosolwg o gynnydd** – mae'n rhoi trosolwg cryno o'n cynnydd mewn perthynas â mesurau cyffredinol ar gyfer pob Amcan Llesiant, gan gysylltu hyn â phwysigrwydd yr amcan hwnnw.
- **Yn gryno** – mae'n rhoi trosolwg o'n cynnydd mewn perthynas â phob un o'n meysydd blaenoriaeth Thematig a Gwasanaeth.
- **Sut rydym yn gwneud?** - mae'n rhoi dadansoddiad o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'n mesurau allweddol fel y manylir yn y Gyfres Ddata Gorfforaethol. Darperir trosolwg manwl o'r holl fesurau yn Atodiad 5.
- **Cynnydd mewn perthynas â'r Canlyniadau** – mae'n darparu cynnwys ynghylch gweithgaredd o bob rhan o'r sefydliad sy'n ymwneud â'r canlyniad hwnnw neu'n mynd i'r afael ag ef.
- **Oes unrhyw un ar ei ennill?** - mae'r adran hon yn darparu astudiaethau achos neu straeon newyddion da yn ymwneud â'r elfen 'So What?'. Mae'r ffocws ar dynnu sylw at y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud i fywydau ein trigolion a'n defnyddwyr gwasanaeth trwy ein gweithgareddau.
- **Sut y gallwn ni wneud yn well?** – mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r meysydd a nodwyd i'w gwella ac yn 'cau'r ddolen'.

Diolchodd aelodau'r Cyngor i'r staff am eu gwaith caled wrth ddarparu adroddiad cynhwysfawr.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith yn unol â hynny i'r ymholiadau a godwyd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:

9.4.1 fod Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2023-2024 yn cael ei gymeradwyo.

9.5. ASESIAD PERFFORMIAD PANEL SIR GAERFYRDDIN

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2024 (cofnod 10) wedi ystyried adroddiad a baratowyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a oedd yn gosod dyletswydd ar gynghorau i drefnu i banel gynnal ac ymateb i asesiad corfforaethol, ar lefel sefydliadol, o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin yn olynol o gynghorwyr i'r cyngor, o'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad, a ddiffinnir fel y graddau y mae cyngor:

- yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; a
- bod ganddo drefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer sicrhau'r uchod.

Nododd y Cyngor, yn unol â gofynion y Deddfau, fod dogfen gwmpasu wedi'i pharatoi sy'n rhoi cyflwyniad i Sir Gaerfyrddin, ac i'r Cyngor, gan ystyried unrhyw heriau a amlygwyd yn yr hunanasesiad gan gynnwys canfyddiadau o'r adroddiadau archwilio, arolygu neu reoleiddwyr diweddar. Byddai'r ddogfen gwmpasu yn llywio dewis y Panel i gynnal yr asesiad ynghyd â Chylch Gorchwyl manwl ar gyfer yr asesiad, a fyddai wedyn yn cael ei gytuno rhwng y Panel a'r Cyngor. Cynigiwyd y byddai'r Asesiad o Berfformiad gan Banel yn cael ei gynnal yn Sir Gaerfyrddin rhwng 10-13 Mehefin 2025.

Ymatebodd yr Arweinydd yn unol â hynny i'r ymholiadau a godwyd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:

9.5.1 nodi'r gofynion ar gyfer Asesiad o Berfformiad gan Banel
9.5.2 cytuno ar Ddogfen Gwmpasu Sir Gaerfyrddin
9.5.3 cytuno ar yr amserlenni ar gyfer ymgymryd â'r Asesiad o Berfformiad gan Banel a gynigir ar gyfer Mehefin 2025
9.5.4 bod yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr wedi dirprwyo awdurdod i gadarnhau penodiad y Panel a bod y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr asesiad yn dilyn trafodaeth â rhanddeiliaid perthnasol yn cael ei gymeradwyo.

9.6. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF I MEDI 30AIN 2024

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2024 (gweler cofnod 11), wedi ystyried Adroddiad ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar weithgareddau rheoli'r trysorlys rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu'r argymhelliad canlynol gan y Cabinet:

9.6.1 bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

10. DERBYN ADRODDIAD CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y:-

10.1. 4YDD TACHWEDD, 2024

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2024.

10.2. 18FED TACHWEDD, 2024

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2024.

11. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

12. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OES DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

13. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellwyd ar yr agenda o dan 13.1 – 13.8 ar gael er gwybodaeth ar wefan y Cyngor.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf